**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15fed Mawrth 2004 yn Siambr y Cyngor, Pencadlys Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Ll Davies (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J R Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R Hill | Cyngor Sir y Fflint |
| R P MacFarlane | Cyngor Sir y Fflint |
| D G Parry | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| D B Evans | Cyngor Gwynedd |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G S Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H T Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); D Wrigley (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); P S Coles (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), H Jones (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Hugh-Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| D M Morris | Cyngor Sir Ddinbych |
| A R Cattermoul | Cyngor Sir y Fflint |
| F A Nichols | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

i. **"Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru"** Cafodd yr aelodau wybod bod y ddogfen yma wedi ei chyhoeddi yr wythnos cynt, ac y byddai'r Prif Swyddog Tân yn eu briffio'n fyr arni.

ii. **Cynllun Amodau Gwasanaeth** *(y Llyfr Llwyd)* – Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Awdurdod bod y gwelliannau i'r Cynllun Amodau Gwasanaeth *(Y Llyfr Llwyd)* i'w chyhoeddi at ddiben ymgynghori y diwrnod hwnnw. Y gred oedd y byddai'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad ar y gwelliannau'n eithriadol o dynn. Felly, gofynnodd i'r Awdurdod ddirprwyo'r gwaith o ffurfio barn yr Awdurdod ar y gwelliannau i'r Panel Gweithredol, a byddai rhaid iddynt gynnal cyfarfod arbennig i drafod y ddogfen. Felly:

***Penderfynwyd: - dirprwyo'r pwerau i'r Panel Gweithredol ffurfio barn yr Awdurdod ar y gwelliannau i'r Cynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Llwyd) ac y cynhelid cyfarfod arbennig o'r Panel ddydd Gwener 19eg Mawrth 2004 am10:15 y bore ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub at y diben hwn***

**3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

i. Cafodd yr aelodau wybod y byddai'r Awdurdod yn cynnal munud o dawelwch am 11 o'r gloch er cof am y rhai fu farw yn yr ymosodiad terfysgol ym Madrid
ii. Estynnwyd cydymdeimlad yr Awdurdod i'r Cynghorydd W J Chorlton oedd wedi colli ei frawd yn ddiweddar
iii. Llongyfarchwyd Mr Paul Claydon ar ei ddyrchafiad diweddar i swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
iv. Cafodd yr aelodau wybod mai dyma'r cyfarfod llawn diwethaf o'r Awdurdod Tân i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân yn rhinwedd ei swydd cyn iddo ymddeol, er mai'r bwriad oedd cyflwyno gwerthfawrogiad yr Awdurdod o'i wasanaeth i Mr Coles yn y cyfarfod blynyddol

v. Cafodd yr Awdurdod wybod i'r holl aelodau a allodd gymryd rhan yn yr ymweliad â Chanolfan Hyfforddi Ryngwladol y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Chorley ar 2il Chwefror deimlo i'r ymweliad fod yn un gwerth chweil. Roedd yr adnoddau a gynigwyd gan y Ganolfan, ynghyd ac ansawdd ac amrywiaeth yr hyfforddiant oedd ar gael wedi creu cryn argraff arnynt. Achubwyd hefyd ar y cyfle i gyfarfod â recriwtiaid o Ogledd Cymru oedd yno ar eu hyfforddiant cyntaf a rhoddodd y recriwtiaid arddangosiad o'u sgiliau newydd i'r aelodau.

vi. Cyhoeddwyd dyddiadau cyfarfodydd nesaf y pwyllgorau; yn ogystal â'r cyfarfod arbennig o'r Panel Gweithredol ar 19eg Mawrth, byddai'r Panel Gweithredol hefyd yn cyfarfod ar 22ain Ebrill 2004 am 10 y bore. Byddai cyfarfod o'r is-bwyllgor a sefydlwyd gan y Panel Gweithredol yn cael ei gynnal yn union ar ôl y cyfarfod hwnnw. Y dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwerth Gorau oedd 7fed Mai 2004 am 10:30 y bore; byddai pob cyfarfod yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl.

vii. Oherwydd newid dyddiad yr etholiadau lleol, roedd rhaid i'r Awdurdod newid dyddiad ei Gyfarfod Blynyddol a'r cyfarfod llawn nesaf o'r Awdurdod. Byddai'r rhain bellach yn cael eu cynnal ddydd Llun 19eg Gorffennaf 2004 ym Mhencadlys Cyngor Sir Ddinbych yn Rhuthun am 10:30 y bore.

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2003

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. cyfarfod o'r Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 14eg Ionawr 2004
iii. cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr 2004
iv. cyfarfod o'r Pwyllgor Gwerth Gorau a gynhaliwyd ar 29ain Ionawr 2004
v. cyfarfod o'r Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 23ain Chwefror 2004

**5) Materion yn codi**

Cododd y materion canlynol o'r cofnodion:

**Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân a'r Panel Gweithredol *(Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân)*:** Hysbysodd y Clerc yr aelodau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol: derbyniwyd llythyr o gydnabyddiaeth oddi wrth y Gweinidog yn dilyn cais yr Awdurdod am gyfarfod brys gyda hi i drafod nifer o faterion yn ymwneud â'r rheoliadau drafft. Derbyniwyd llythyr hefyd oddi wrth Syr Harry Jones CBE, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn estyn cefnogaeth barhaus y Gymdeithas i'r Awdurdod ar y mater yma. Dywedodd y Cadeirydd fod Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru (WFSF) hefyd wedi trafod y mater yma yn eu

cyfarfod diwethaf; roedd Awdurdod Tân De Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y mater ac roedd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn cefnogi'r mater mewn egwyddor. Roedd y Fforwm hefyd wedi gofyn am gyfarfod brys gyda'r Gweinidog i drafod y mater.

**Cyfarfod y Panel Gweithredol ar 23ain Chwefror 2004 *(hen Orsaf Dân Llanfairfechan)*:** Gofynnodd y Cynghorydd J R Hughes am ragor o wybodaeth ynghylch yr eitem hon o fusnes. Dywedodd y Clerc mai gwell fyddai ateb yr ymholiad yma dan fusnes Rhan II gan mai dan fusnes Rhan II y trafodwyd yr eitem yng nghyfarfod y Panel Gweithredol. Cytunodd y Cynghorydd Hughes â hyn.

**6) Cyflwyniad ar Atal Tân Cymru**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Antony Feasey, Prif Weithredwr Atal Tân Cymru, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r Awdurdod am y sefydliad a'i waith. Esboniodd Mr Feasey mai partneriaeth rhwng y tri awdurdod tân yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad yw Atal Tân Cymru, a adwaenid o'r blaen fel Ymddiriedolaeth Elusennol Diogelwch Tân Cymunedol Cymru. Roedd dwyn ynghyd gryfder y sefydliadau yma dan ambarél Atal Tân Cymru yn gwneud denu cyllid i Gymru at ddiben mentrau a phrosiectau diogelwch tân cymunedol yn haws. Yna, aeth Mr Feasey yn ei flaen i roi gorolwg o strwythur a gwaith y sefydliad i'r aelodau. Esboniodd fod y sefydliad ei hun yn syml, effeithiol a diwastraff. Roedd yn canolbwyntio ar dri maes penodol: addysg, hyrwyddo ac ymchwil. Cafodd yr aelodau enghreifftiau o sut roedd y sefydliad yn cynorthwyo addysgwyr y tri awdurdod tân yn eu gwaith gyda phlant ysgol; gwnaethpwyd hyn trwy ddenu nawdd gan fusnesau preifat i ariannu gwahanol gystadlaethau er mwyn gwneud y disgyblion yn fwy ymwybodol o faterion diogelwch tân. Ar yr ochr 'hyrwyddo', dywedodd fod ymgyrch ymlaen ar y pryd hwnnw i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o "ddiogelwch tân yn y gegin"; gwnaed hyn trwy anfon taflenni i 1.3 miliwn o gartrefi yng Nghymru. Roedd y taflenni yma'n cynnwys ffurflen ar gyfer cystadleuaeth. Daeth 3000 o geisiadau i law eisoes ac felly roedd hyn yn ffordd effeithiol o fesur bod y sefydliad yn cysylltu gyda'r gymuned yn ehangach. Yna, aeth yn ei flaen i esbonio y byddai ymgyrchoedd yn y dyfodol yn cael eu hanelu at grwpiau difreintiedig penodol: byddai pob awdurdod yn penderfynu pa grwpiau fyddai'r rhain yn eu hardaloedd eu hunain. Esboniodd Mr Feasey nad oedd yr ochr 'ymchwil' o'r gwaith wedi cychwyn eto ond mai'r nòd oedd chwarae rhan weithgar wrth ymchwilio i achosion tanau yng Nghymru gyda'r bwriad o leihau'r nifer yn gyffredinol a'r canlyniadau ofnadwy. Rhestrodd enwau'r noddwyr a'r cwmnïau a ddenwyd hyn yn hyn i fod mewn partneriaeth gyda'r sefydliad ac i gefnogi ei waith, a rhoddodd esiamplau o nifer o brosiectau oedd ar y gweill, megis cyflwyno timau lleihau tanau bwriadol, cynhadledd "Arbed ein Hysgolion", gwefan addysgol, cynadleddau diogelwch tân cymunedol – roedd un o'r rhain i'w chynnal yng Ngogledd Cymru ar 21ain Hydref 2004, a sawl sioe deithiol arall. Y prosiect mawr nesaf, y cychwynnir arno cyn bo hir, oedd sefydlu "Galw Tân Cymru", wedi ei seilio ar yr un egwyddor â "Galw Iechyd Cymru". Eleni, roedd Atal Tân wedi ymgymryd â'r holl drefniadau ar gyfer "Cynhadledd Walesfire", i'w chynnal yn

Ninbych y Pysgod rhwng 27ain a 28ain Mai; roedd y trefniadau'n mynd yn iawn â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Mrs Edwina Hart wedi cael ei gwahodd i agor y gynhadledd yn swyddogol. I gloi ei gyflwyniad, diolchodd Mr Feasey i'r Awdurdod am ei gefnogaeth barhaus i Atal Tân Cymru ac addawodd adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn rheolaidd ar hynt y sefydliad.

11am: Ar yr adeg yma, cafodd yr Awdurdod funud o dawelwch er cof am y rhai a fu farw yn y drychineb ym Madrid.

I ateb cwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Mr Feasey fod y sefydliad wrthi'n trefnu cyfres o ryw 15 o sioeau teithiol "Gartre'n Saff" gynhelid ledled Gogledd Cymru yn ystod Medi a Hydref 2004. Dywedodd hefyd na fyddai Atal Tân yn medru cael arian ar ran awdurdodau lleol at ddiben gosod systemau taenellu mewn ysgolion, ond bod y sefydliad wrthi'n creu cysylltiad cryf gydag adran addysg y Cynulliad ac yn lobïo'n galed ar ba mor bwysig a manteisiol yw gosod systemau taenellu mewn ysgolion. Ynghylch a oedd gan y sefydliad bolisi dwyieithog, cadarnhaodd fod ganddo bolisi o'r fath; dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod Atal Tân yn defnyddio gwasanaeth cyfieithydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer ei waith cyfieithu.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Feasey am ei gyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r aelodau.

Cafwyd saib am 11:10 ac ailymgynnull am 11:20

**7) Cyflwyniad ar y Cytundeb Cyflog ac Amodau'r Gwasanaeth Tân – Gwaith gwirio ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr David Jones o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ar y gwaith gwirio roedd y Comisiwn yn ei wneud ar Awdurdod Tân Gogledd Cymru o ran moderneiddio'r Gwasanaeth. I ddechrau, ymddiheurodd Mr Jones na chafodd y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad ei dosbarthu gyda phapurau'r pwyllgor. Amryfusedd oedd hyn ar ran swyddfa'r Comisiwn Archwilio yn Llundain, oedd yn gyfrifol am lunio'r adroddiad; roedd copïau Cymraeg ar gael i'w dosbarthu yn y cyfarfod. Soniodd Mr Jones am y cefndir a arweiniodd at lunio'r adroddiad gwirio, a dywedodd wrth yr aelodau mai'r diben oedd asesu hynt yr Awdurdod wrth roi'r agenda foderneiddio ar waith fel y nodwyd yn y cytundeb cyflog ac yn y Papur Gwyn; er ei fod yn pwysleisio nad oedd y Comisiwn mewn unrhyw ffordd yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylai'r dyfarniad cyflog gael ei weithredu. Soniodd am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu cynnydd yr Awdurdod a'i bod yn un ragnodedig genedlaethol ac nad oedd fawr ddim, neu ddim, lle ar gyfer rhyddid yn lleol. Roedd y Comisiwn o'r farn fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi cyrraedd dosbarthiad "rhywfaint o gynnydd"; golygai hyn ei fod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r drefn foderneiddio a bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn y safle roedd y Comisiwn yn disgwyl iddo fod. Roedd yr Awdurdod wedi dangos "arfer dda" mewn sawl maes, yn

enwedig yn y ffordd roedd y drefn wedi cael ei harwain gan yr aelodau; dywedodd fod y diwyg a ddewiswyd gan yr Awdurdod ar gyfer cyhoeddi dogfen y Cynllun Integredig Rheoli Risg y gorau a welodd. Cafwyd cynnydd da mewn sawl maes arall hefyd, megis camau cyflwyno cyntaf yr agwedd "cymhathu o reng i rôl" y System Datblygiad Personol Integredig (IPDS). Clustnodwyd rhai meysydd eraill fel rhai ag "angen rhagor o ddatblygiad"; roedd y meysydd hyn yn cynnwys goramser rhag drefnedig, gweithio'n rhan amser a rhai amodau eraill o wasanaeth. Roedd Mr Jones yn cydnabod bod ansicrwydd cenedlaethol yn gallu bod yn rhwystr i gynnydd mewn rhai agweddau o'r rhaglen foderneiddio. Un esiampl o hyn oedd yr ansicrwydd ynghylch yr amserlen ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân yng Nghymru i'r Cynulliad, a gallai hyn gyfrannu at golli'r hwb ymlaen efallai. I gloi ei gyflwyniad, dywedodd fod y Comisiwn wedi gwneud asesiad gonest o fewn y canllawiau a ragnodwyd, ond roedd o'r farn fod angen cydnabod y gwahanrediadau rhwng y gwahanol awdurdodau ac nad oedd y canllawiau llym presennol yn caniatáu ystyried hynny. Roedd y Comisiwn wedi cyflwyno ei argymhellion i'r Awdurdod, a byddent hwy nawr yn llunio cynllun gweithredu cyn i'r Comisiwn ddechrau ar ail gam y drefn archwilio yn ystod yr haf. Diolchodd i'r swyddogion, yr aelodau ac Undeb yr FBU am eu cydweithrediad gyda'r Comisiwn yn ystod y drefn archwilio.

I ateb cwestiynau'r aelodau, dywedodd Mr Jones ei fod yn gwybod bod yr Awdurdod wedi bod yn ystyried materion megis goramser rhag drefnedig, gweithio'n rhan amser ac amodau'r gwasanaeth, ac wedi dod i'r casgliad nad oedd y meysydd hyn, ar hyn o bryd, yn cyfiawnhau newidiadau; ond gan fod y canllawiau ar y materion hyn yn rhai cadarn, roedd y Comisiwn wedi gofyn i'r Awdurdod roi rhagor o ystyriaeth iddynt. Dywedodd y Cynghorydd R P MacFarlane fod yr Awdurdod wedi bod dan bwysau mawr ers Mehefin 2003 oherwydd y gofyniad i lunio Cynllun Risg. Roedd yn gadarn o'r farn fod yr agenda foderneiddio yn llawer mwy cymhleth nag yr oedd yn ymddangos, a bod yr Awdurdod wedi cyflawni cryn dipyn hyd yn hyn, er ei fod yn cydnabod bod cryn dipyn i'w wneud eto ar y llwybr datganoli a moderneiddio.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei gyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r aelodau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn yr adroddiad***

## 8) Y Llythyr Archwilio Blynyddol 2002/03

Yna, cyflwynodd Mr David Jones Lythyr Archwilio Blynyddol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru 2002/03 (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r Awdurdod. Cafodd yr aelodau wybod bod yr archwiliad wedi ei wneud yn unol â rheolau'r Comisiwn Archwilio ac wedi cwmpasu tri prif faes: y cyfrifon; agweddau ariannol o lywodraeth gorfforaethol a rheoli perfformiad. Aeth yn ei flaen i roi gorolwg o'r gwahanol agweddau gynhwyswyd yn yr adroddiad a dywedodd wrth yr Awdurdod fod y Comisiwn Archwilio wedi cyhoeddi safbwynt archwilio diamod ar 24ain Rhagfyr 2003. Casgliad cyffredinol y Comisiwn oedd fod gan yr

Awdurdod drefniadau cadarn mewn lle o ran cyfreithlonrwydd trafodion ariannol sylweddol, rheolaeth ariannol fewnol a'r safonau o reolaeth ariannol. Er hynny, roedd y Comisiwn o'r farn fod raid gwneud gwelliannau pellach o ran cynllun o gadw a dirprwyo awdurdod. Roedd angen i'r Awdurdod hefyd warchod rhag llithriant ar y rhaglen gwariant cyfalaf, a oedd i'w gweld yn broblem oedd yn codi dro ar ôl tro yn ystod y blynyddoedd diwethaf. I ateb cwestiwn ynghylch a oedd llithriant, a arweiniodd at danwariant, yn well na'r Awdurdod yn cael gorwariant ar ei gyllideb, dywedodd y Rheolwr Archwilio mai dyletswydd yr Awdurdod oedd sicrhau bod yr holl fesurau angenrheidiol yn cael eu cymryd er mwyn cadw o fewn y rhaglen gwariant cyfalaf a'r gyllideb yr oedd wedi eu gosod. Roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn y byddai cyflwyno'r system Benthyca Darbodus yn Ebrill 2004 o gymorth i'r Awdurdod yn hyn o beth, gan na fyddai'r system newydd mor llym â'r system Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol bresennol, a oedd yn gofyn i unrhyw gymeradwyaethau nad oedd wedi eu defnyddio gael, unai, eu 'benthyca' i awdurdod arall ar ddiwedd blwyddyn ariannol, neu fel arall, gael eu colli. Pwysleisiodd, er hynny, y dylai'r Awdurdod geisio cadw mor agos ag y bo modd at y rhaglen gwariant cyfalaf yr oedd wedi ei gosod. Roedd angen llunio canllawiau ar gyfer staff di-lifrai ar gofrestru lletygarwch a rhoddion. Ymddiheurodd nad oedd y fersiwn Gymraeg o'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn diffinio'n glir bod yr argymhelliad yn cyfeirio at staff di-lifrai yn hytrach na'r holl staff. Hefyd, ymddiheurodd am y camgymeriad oedd yn y llythyr ynghylch y Pwyllgor Safonau, ac roedd yn cydnabod y ffaith nad oedd yr Awdurdod wedi wynebu trafferthion wrth ddenu ymgeiswyr o blith y cyhoedd a oedd yn dymuno gwasanaethu fel aelodau annibynnol o'r Pwyllgor; yn hytrach achoswyd yr oedi oherwydd nad oedd y trefniadau gwreiddiol ar gyfer sefydlu'r Pwyllgor wedi ateb y gofynion statudol perthnasol. Roedd y broblem wedi ei datrys erbyn hyn, a'r Pwyllgor bellach wedi cael ei sefydlu.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ddod i gyflwyno ei adroddiad ac am ateb cwestiynau'r aelodau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol a'i argymhellion***

## 9) Y Cynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am argymhellion y Panel Gweithredol yn dilyn cwblhau'r cyfnod ymgynghorol ar Gynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod, sef "Dweud eich Dweud". Esboniodd fod yr Awdurdod yn tynnu at derfyn trefn y Cynllun Risg 2004/05. Adroddwyd ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 23ain Chwefror 2004; roedd cofnodion y cyfarfod hwnnw ynghyd â'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn rhestru'r gwelliannau yr oedd y Panel yn argymell eu gwneud i'r Cynllun Drafft cyn ei fabwysiadu; roedd rhaid mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol cyn 31ain Mawrth 2004.

Yna, rhestrodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon argymhellion y Panel Gweithredol, fel a nodwyd yn yr adroddiad, a rhoddodd y wybodaeth gefndir

perthnasol i'r aelodau ar y "meysydd risg" lle roedd y Panel wedi gofyn am gryfhau geiriad y cynigion cyn mabwysiadu'r Cynllun. Holodd rhai aelodau beth oedd y rheswm dros gynnwys papur dewisol, fel atodiad i'r adroddiad, ar "Maes Risg 5 – Patrymau Shifftiau". Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon wrth yr aelodau fod hyn wedi cael ei wneud yn dilyn cais a dderbyniwyd yn y cyfarfod o'r Panel Gweithredol y dylid darparu'r prisiadau ar gyfer y "newid arfaethedig" yn y system criw dydd fel y nodwyd yn y Cynllun Risg Drafft â'r "cynnig arall" ar gyfer y system criw dydd a roddwyd gerbron yng nghyfarfod y Panel, i'r aelodau ei ystyried. Dywedodd fod y cynnig yn y Cynllun Risg Drafft, ni waeth beth fo'r manteision o ran cost, yn sicrhau y byddai'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau ar yr adeg pan fo'r galw mwyaf, sef un o brif amcanion y rhaglen foderneiddio. Esboniodd y Clerc y byddai mabwysiadu'r dull yma o gymorth i leihau'r risg o her gyfreithiol lwyddiannus yn erbyn yr Awdurdod, oherwydd gallai'r Awdurdod ddangos ei fod, yn unol â'r ddeddfwriaeth, wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i wneud ei adnoddau ar gael pan fo'r galw mwyaf.

Dywedodd y Cynghorydd J R Hughes wrth yr aelodau ei fod wedi ymweld â gorsaf dân Llandudno yn ddiweddar, lle roedd y diffoddwyr tân wedi lleisio eu pryderon wrtho am y newid arfaethedig i'r patrwm shifftiau; roeddynt yn rhagweld trafferthion i'r diffoddwyr tân wrth ymateb i alwadau yn gynnar gyda'r nos oherwydd y problemau traffig yng nghyffiniau'r orsaf. Dywedodd y Cynghorydd P C Evans y byddai cadw at y patrwm shifftiau presennol o fudd i'r agwedd diogelwch tân cymunedol; roedd o'r farn y byddai'n haws cael mynediad i anheddau preifat yn ystod y bore nac yn gynnar gyda'r nos; darparodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon ystadegau oedd yn gwrthbrofi hyn a dywedodd fod cwmnïau cyfleustodau wedi hen sefydlu ei bod yn haws cysylltu â phobl gartref yn gynnar gyda'r nos. Roedd y Cynghorydd W J Chorlton o'r farn ei bod efallai'n gynamserol i'r Awdurdod benderfynu ar faterion megis newidiadau ym mhatrymau shifftiau cyn i'r "Llyfr Llwyd" diwygiedig gael ei gyhoeddi. Dywedodd y Prif Swyddog Tân a'r Cynghorydd E C George fod y "Llyfr Llwyd" presennol, ac mae'n siŵr yr un ddaw ar ei ôl, yn ddistaw ar fater amseroedd dechrau a gorffen y shifftiau dydd. Atgoffwyd yr aelodau gan y Cadeirydd a'r Swyddogion na fyddai'r patrwm, petai'n cael ei fabwysiadau, yn ddi-syfl ac y gallai'r Awdurdod ei adolygu unrhyw bryd.

Daeth i'r amlwg yn ddiweddar fod Undeb yr FBU dan yr argraff y byddai trafodaethau gyda'r undebau ar y newid yn y patrymau shifftiau yn dechrau unwaith y byddai'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Cynllun. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad â swyddogion yr Undeb yr wythnos flaenorol ynghylch y mater ac wedi esbonio wrthynt fod raid, dan y cytundeb cyflog ac amodau, gyflwyno unrhyw sylwadau ar y cynigion oedd yn y Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chaniateid trafodaethau ar faterion o'r fath yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun gan yr Awdurdod. Byddai unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cynllun yn cael eu gweithredu.

O ran y Larymau Tân Awtomatig, daeth i'r amlwg yn y cyfamser fod erthygl a ymddangosodd mewn rhifyn diweddar o'r Daily Post oedd yn dyfynnu un o

swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dweud nad oedd galwadau diangen gan y larymau yma yn creu problem i'r Awdurdod, wedi dyfynnu geiriau'r swyddog allan o'i gyd-destun. Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon wrth yr Awdurdod fod llythyr wedi ei anfon at y papur yn gwrthod yr awgrym wnaed yn yr erthygl ac yn tynnu sylw at faint y broblem yn yr ardal.

Gadawodd y Cynghorydd J A Roberts y cyfarfod ar y pwynt yma.

Cynigiodd y Cynghorydd R P MacFarlane ac eiliodd y Cynghorydd D G Parry, fod yr argymhellion fel yr oeddynt yn yr adroddiad, a'r argymhelliad ar gyfer "Maes Risg 5" fel a gynigwyd yn y ddogfen Cynllun Risg Drafft, yn cael eu cymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd J R Hughes welliant i "Maes Risg 5", a eiliwyd gan y Cynghorydd P C Evans, sef bod y prif ddiwrnod gwaith yn bod rhwng 8 y bore a 6 yr hwyr, gyda'r amser wrth gefn i ffwrdd o'r orsaf yn bod rhwng 6 yr hwyr ac 8 yr hwyr, ynghyd â'r staff llawn amser a rhan amser ar gael i ffwrdd o'r orsaf rhwng 8 yr hwyr a 8 y bore, i gael ei fabwysiadu, ac i'r system i gael ei hadolygu ar ôl 12 mis.

Rhoddwyd y gwelliant i bleidlais yn gyntaf ac fe'i trechwyd gan bleidlais fwyafrifol. Yna, rhoddwyd y cynnig i bleidlais ac roedd y mwyafrif o blaid. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>:***

***i. nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau;***
***ii. cymeradwyo'r hyn roedd y Panel Gweithredol yn argymell ei gynnwys a'r gwelliannau, a bod yr opsiwn ar gyfer "Maes Risg 5 - Dydy ein diwrnodau gwaith ddim yn cyd-fynd â'n hamseroedd prysur" yn cael ei gynnwys fel y'i lluniwyd yn y ddogfen "Cynllun Risg Drafft"; a***
***iii. gan aros cynnwys yr uchod bod y "Cynllun Drafft" yn cael ei fabwysiadu fel Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod***

**10) Alldro Amcanol 2003/04**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Dave Wrigley, oedd yn dirprwyo ar ran y Trysorydd, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad y Trysorydd (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru'r ffigurau alldro amcanol disgwyliedig am y flwyddyn ariannol 2003/04. Esboniodd fod yr holl fanylion perthnasol fel a nodwyd yn yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>:***

***i. fod y gorwariant yn 2003/04 yn cael ei ariannu o danwariant y flwyddyn flaenorol; a bod***
***ii. £100,000 yn cael ei drosglwyddo i Ddarpariaeth Gyfrifiadurol i ariannu prynu'r system rheoli adnoddau dynol yn 2004/05***

## 11) System Datblygiad Personol Integredig (IPDS)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am yr hynt hyd yn hyn o ran rhoi'r System Datblygiad Personol Integredig (IPDS) ar waith. Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks drwy'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad gyda'r aelodau, ac esboniodd mai IPDS pan fyddai'n cael ei gyflwyno fyddai'r newid unigol mwyaf yn y Gwasanaeth Tân ym Mhrydain. Byddai'r Gwasanaeth yn mabwysiadu dull hollol newydd ar gyfer hyfforddi a datblygu staff lifrai a di-lifrai o'r diwrnod y byddent yn ymuno tan y byddent yn gadael y Gwasanaeth. I ateb cwestiynau'r aelodau dywedodd fod y cyrff cynrychioliadol wedi cytuno i'r cymhathiad o "reng i rôl". Roedd angen gwneud rhagor o waith ar feysydd eraill ac roedd trafodaethau'n dal i fynd ymlaen ar lefel genedlaethol er mwyn datrys rhai materion ynghylch dyblygu rolau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r hynt hyd yn hyn***

## 12) Y Newidiadau Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) lle roedd yr atodiad yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 29ain Medi 2003 na ddylai cofnodion cyfarfod blynyddol yr Awdurdod gael eu hadrodd na'u cymeradwyo tan ei gyfarfod blynyddol nesaf. Cynigwyd ac eiliwyd y newidiadau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr, ac yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod, roeddynt wedi ei gohirio ar gyfer trafodaeth tan y cyfarfod presennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog fel y nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad***

## 13) Newid i'r Côd Ymddygiad

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau fod angen gwneud newid bychan i Gôd Ymddygiad yr Awdurdod er mwyn adlewyrchu newid i'r côd ymddygiad enghreifftiol a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol; roedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu côd ymddygiad enghreifftiol y Cynulliad fel ei Gôd ei hun. Felly, roedd y newid bychan yma wedi gadael yr Awdurdod heb fawr ddim dewis ond newid ei Gôd ei hun. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at holl aelodau Pwyllgor Safonau'r Awdurdod i dynnu eu sylw at y newid arfaethedig ac wedi gofyn iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau oedd ganddynt ar y cynnig iddo cyn y cyfarfod hwn. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - newid paragraff 15(ch) o gôd ymddygiad yr Awdurdod trwy fewnosod y geiriau "lwfans neu bensiwn a wneir o dan" cyn "Adran 18"***

**14) Gwerth Gorau**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am faterion yn ymwneud â Gwerth Gorau. Esboniodd mai'r adroddiad safonol oedd hwn. Yna, aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn ei flaen i restru'r materion nodwyd ynddo. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- nodi a chymeradwyo'r camau a'r camau arfaethedig a adroddwyd yn eu cylch***

**15) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn "*Er Gwybodaeth"* ar ei newydd wedd i'r aelodau. Esboniodd fod y rhifyn hwn, fel y rhai a'i dilynai, mewn lliw llawn, gyda'r bwriad o geisio cynyddu ei apêl i'r darllenydd. Roedd y Cadeirydd o'r farn fod y rhifyn ar ei newydd wedd yn rhagori ar ei ragflaenydd a diolchodd i Miss Bethan Davies am ei gwaith yn casglu'r erthyglau ac yn golygu'r cylchgrawn. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- derbyn y cyhoeddiad***

**16) Materion Brys**

**"Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru"**

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi'r ddogfen "Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru - at ddiben ymgynghori", yr wythnos cynt gyda'r dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau wedi ei bennu ar gyfer 3ydd Mai 2004. Esboniodd fod yr Awdurdod eisoes wedi anfon sylwadau ar y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Lloegr ar faterion oedd a goblygiadau trawsffiniol. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân mai "glasbrint" oedd y ddogfen hon, a datganiad ar weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r ffordd ymlaen ar gyfer y Gwasanaeth Tân yng Nghymru yn dilyn datganoli cyfrifoldeb am y Gwasanaeth i'r Cynulliad. Credid mai bwriad y Gweinidog, wedi'r drefn ymgynghori, oedd lansio'n swyddogol y "Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru" yng Nghynhadledd Walesfire ddiwedd mis Mai. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod dadl wedi ei chynnal ar "Ddatganoli'r Gwasanaeth Tân" mewn sesiwn lawn o'r Cynulliad yr wythnos flaenorol; a dosbarthwyd copïau o'r cofnod o'r trafodion i bob aelod oedd yn bresennol, a byddai copi'n cael ei anfon trwy'r post i'r aelodau oedd yn absennol. Aeth y Prif Swyddog Tân yn ei flaen i ddweud wrth yr aelodau fod Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân pob awdurdod tân yng Nghymru wedi cael eu galw i gyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad y diwrnod canlynol.

Roedd Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru i fod i drafod y ddogfen Fframwaith yn ei gyfarfod nesaf, oedd i'w gynnal ar 8fed Ebrill 2004, ac addawodd y Cadeirydd i adrodd ynghylch barn y Fforwm ar y ddogfen i'r Panel Gweithredol

yn ei gyfarfod ar 22ain Ebrill 2004. Hefyd, gwnaeth gais i'r Awdurdod ddirprwyo'r gorchwyl o lunio ymateb i Lywodraeth y Cynulliad ar y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru i'r Panel Gweithredol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - dirprwyo'r cyfrifoldeb am lunio ymateb, ar ran yr Awdurdod, i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y ddogfen "Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru" i'r Panel Gweithredol***

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitemau canlynol o fusnes heb y cyhoedd a'r Wasg yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol,1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem ganlynol o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol,1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

**<u>RHAN II</u>**

**Materion yn codi: Hen Orsaf Dân Llanfairfechan** (Cofnodion y Panel Gweithredol 23ain Chwefror 2004) – holodd y Cynghorydd J R Hughes os oedd y swyddogion, yn dilyn penderfyniad y Panel, wedi derbyn cais ysgrifenedig gan Gyngor Tref Llanfairfechan ynghylch y safle, gan ei fod wedi cael ar ddeall bod llythyr wedi ei anfon at yr Awdurdod. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân na ddaeth unrhyw lythyr i law hyd yn hyn oddi wrth y Cyngor Tref. Yn y cyfamser, roedd yr ymgeisydd gwreiddiol wedi dweud mai ei ddymuniad fyddai prynu'r safle cyn gynted ag y bo modd unwaith y byddai digon o arian nawdd wedi ei sicrhau; roedd hefyd wedi addo cyflwyno cynllun busnes i'r Awdurdod. Cafodd yr aelodau sicrwydd y byddai'r Awdurdod yn cael eu ddiweddaru ynghylch y sefyllfa.

Cyn dod â'r cyfarfod i ben diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau a'r swyddogion am y gefnogaeth a gafodd ganddynt yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Hefyd, ar ran yr Awdurdod, dymunodd yn dda i'r aelodau oedd yn ymddeol o wasanaeth cyhoeddus ar adeg etholiadau'r awdurdodau lleol oedd ar ddod, a dymunodd yn dda i bob aelod oedd yn ceisio cael eu hailethol.

Yna cynigiodd y Cynghorydd D B Evans bleidlais o ddiolch ar ran yr Awdurdod i'r Cadeirydd am ei waith dygn yn ystod ei ddwy flynedd yn y swydd. Mynegodd werthfawrogiad yr Awdurdod iddo am y ffordd effeithiol a diduedd yr oedd wedi cyflawni gwaith yr Awdurdod o'r Gadair.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:05 y prynhawn.
**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>19 Gorffennaf, 2004</u>